# Cynnig – Crynodeb o ymatebion

Cynnig – Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â Goroeswyr

8 Mawrth 2018 i 3 Mai 2018

Welsh Digital – 978-1-78964-087-8

## Rhagarweiniad

Gwnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymiad i'r Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (2016-2021) i ddatblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr.

Diben y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â Goroeswyr yw sicrhau bod anghenion a phrofiadau goroeswyr VAWDASV, gan gynnwys y goroeswyr hynny a wthiwyd i'r cyrion, y sawl a wynebodd lawer o anfantais wrth geisio cael mynediad i gymorth a chefnogaeth, wedi'u deall. Mae hefyd yn bwysig bod y sawl y mae polisi yn cael ei wneud ar eu cyfer yn gallu dylanwadu ac arwain y polisi hwnnw a rhannu'r hynny sy'n gweithio iddynt.

Mae ymgysylltu â goroeswyr wedi dod yn weithgarwch mwy cyffredin i'r Llywodraeth yn ddiweddar ond mae'n unswydd ac yn tueddu ymwneud ag un gweithgarwch polisi yn benodol; datblygu'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, creu'r Strategaeth Genedlaethol neu ymgyrchoedd yn y cyfryngau, er enghraifft.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw strwythur cynaliadwy ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol o ran yr hyn sy'n bwysig iddynt a sicrhau bod yr ymgysylltu hwn yn dylanwadu ar ddatblygu polisi a chyfeiriad gwaith y Llywodraeth.

## Y Cynnig

Ein nod gychwynnol ar gyfer fframwaith ymgysylltu â goroeswyr yw:

- Darparu proses ffurfiol a thrwyddi gall goroeswyr ddatblygu, effeithio a dylanwadu ar bolisi Llywodraeth Cymru ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.
- Sicrhau y gall goroeswyr eirioli a siarad dros eu hunain fel rhan o weithgarwch cyfathrebu Llywodraeth Cymru.

Felly canolbwyntiodd y ddogfen gynnig ar

- Ddulliau y gallai goroeswyr ddylanwadu ar ddatblygu polisi cenedlaethol drwyddynt

- Dulliau y bydd goroeswyr yn cyfathrebu ac yn codi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol drwyddynt.

## Y broses ymgynghori

Cynhaliwyd ymgysylltu uniongyrchol â goroeswyr a rhanddeiliaid o fis Tachwedd 2017 tan fis Ionawr 2018. Cyraeddasom gyfanswm o dros 60 o oroeswyr a 14 o sefydliadau. Canolbwyntiodd yr ymgysylltu hwn ar y thema eang ymgysylltu â goroeswyr gan wahodd sylwadau gan oroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar sut byddant yn dymuno arwain a dylanwadu ar bolisi Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Arweiniodd y gwaith ymgysylltu hwn at ddatblygu dogfen gynnig a amlinellodd themâu y gwaith uniongyrchol ymgysylltu â goroeswyr gan wahodd barnau ystod eang o sefydliadau, goroeswyr, rhanddeiliaid a grwpiau diddordeb ar y themâu hyn a chyfres o opsiynau a thrwyddynt gallai ymgysylltu â goroeswyr gael ei symud yn ei flaen ar lefel Lywodraeth.

Cynhaliwyd y cyfnod ymgynghori o 8 Mawrth tan 3 Mai. Darparwyd fersiynau ar-lein o'r ddogfen gynnig a dolen i arolwg ar ei chynnwys ar Livefearfree. Gwahoddwyd dychweliadau naill ai ar ffurf copi called neu drwy e-bost neu drwy'r arolwg.

## Trosolwg o ymatebion

Derbyniwyd 14 o ymatebion i'r ddogfen gynnig. Dangosir y rhestr o ymatebwyr o dan Atodiad A

## Crynodeb o themau allweddol

Ni ddarparodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad gonsensws clir yn nhermau'r opsiynau a ffafrir. Fodd bynnag, daeth y themâu allweddol canlynol i'r amlwg:

**Cefnogaeth dros yr egwyddor o sicrhau fframwaith ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr sy'n gynaliadwy**.

Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn gefnogol o fecanweithiau i sicrhau y caiff ymgysylltu â goroeswyr ei ffurfioli i alluogi i oroeswyr ddatblygu, effeithio a dylanwadu ar bolisi o ran trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Soniwyd am osod y goroeswr wrth ganol y dyluniad a'r broses o gyflenwi'r gwasanaethau a sut y dylai goroeswyr gael eu grymuso i gymryd rôl weithredol ar sail barhaus.

**Dylai strwythurau o gefnogaeth ar gyfer goroeswyr gael eu plannu mewn unrhyw fodel ymgysylltu.**

Teimlodd rhai o'r ymatebwyr y dylai strwythurau o gefnogaeth fod yn ganolog i unrhyw weithgarwch ymgysylltu. Gallai hyn gynnwys cymorth gan gymheiriaid, a chymorth gan arbenigwyr a gynigir mewn lleoliad grŵp parhaus. Pwysleisiwyd yr angen am gwnselwyr fel rhan o'r strwythur hwn yn enwedig ar gyfer goroeswyr trais rhywiol. Galwodd un arall am ddull strwythuredig a fframwaith gweithredu clir.

**Sicrhau bod llais pob goroeswr yn cael ei gynnwys yn rhan o unrhyw ddull cytûn**

Roedd ymatebwyr yn glir ni ddylai hwn fod yn ddull un maint i bawb. Teimlodd rhai ohonynt fod angen defnyddio dull gwahanol yn nhermau ymgysylltu â goroeswyr gwryw a chyda'r sector trais rhywiol. Hefyd galwyd am sicrhau ein bod yn cyrraedd y goroeswyr a wthiwyd i'r cyrion a bod cyfleoedd i ymgysylltu yn amrywiol, yn eang ac wedi'u hysbysu gan oroeswyr.

### Ariannu i gefnogi fframwaith cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr sy'n gynaliadwy

Teimlodd ymatebwyr y gellid cyflawni ymgysylltu ystyrlon trwy fentrau hirdymor gydag adnoddau digonol yn unig. Pwysleisiodd un ymatebwr y ffaith fod y mwyafrif o'r gwaith gyda goroeswyr naill ai heb adnoddau, yn brin o adnoddau neu fod ganddynt adnoddau a gyfyngir gan amser. Galwodd ymatebwyr am ariannu i oroeswyr – gan ddweud y dylent dderbyn rhywbeth am eu hamser a'u harbenigedd; gwnaed galwad hefyd am wella dealltwriaeth ymhlith comisiynwyr o ran sicrhau arian ac adnoddau ar gyfer ymgysylltu, gan gynnwys meysydd fel gofal plant, cyfieithu ar y pryd a thrafnidiaeth.

### Gosod strwythurau llywodraethu clir mewn lle

Cytunodd ymatebwyr â Llywodraeth Cymru o ran os oes ymrwymiad gwirioneddol i'r gwaith hwn, yna mae angen i ni sicrhau bod mecanweithiau mewn lle er mwyn i ni allu gwerthuso a gweithredu barnau ac argymhellion goroeswyr. I sicrhau hyn, mae'n rhaid bod barnau goroeswyr yn bwydo i mewn i drefniadau llywodraethu ffurfiol Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb o'r Ymatebion

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad ac mae wedi hysbysu modelau gwaith arfaethedig i symud yn ei flaen y gwaith o sefydlu fframwaith cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr sy'n gynaliadwy. Ni dderbyniwyd unrhyw gonsensws clir yn nhermau opsiynau a ffafrir er bod themau allweddol wedi'u hadnabod. Hefyd codwyd materion gan ymatebwyr sydd wedi hysbysu ein ffordd ymlaen arfaethedig.

Nid diben y crynodeb hwn yw dal pob pwynt a godwyd gan ymatebwyr, ond pwysleisio'r themau allweddol sy'n berthnasol i'r opsiynau a gyflwynwyd. Mewn rhai achosion, ni ddarparwyd ymatebion i'r cwestiynau yn y ddogfen gynnig. Mewn achosion eraill, cododd rhai ymatebwyr faterion canfyddedig yn ymwneud â'r opsiynau a gyflwynwyd yn y ddogfen ymgynghori ac mae'r rhain wedi'u rhestru.

Yn anochel, hefyd codwyd pwyntiau sy'n disgyn y tu allan i gwmpas yr ymarferiad hwn. Er nad ydynt yn rhan o'r ddogfen grynhoi hon mae'r rhain wedi cael eu nodi.

## Datblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr sy'n gynaliadwy

| **Cwestiwn 1** |
| --- |
| 1. Beth yw'ch barn ar yr opsiynau a amlinellwyd yn y ddogfen hon fel dulliau y gall ymgysylltu cenedlaethol â goroeswyr gael ei symud yn ei flaen?<br><br>**Opsiynau**<br><br>7.1 Grwpiau ymchwil cydweithrediadol a hysbysir gan oroeswyr |

7.2 Defnyddio sefydliadau'r trydydd sector i hwyluso lleisiau'r goroeswyr, trwy broses gytûn a strwythuredig

7.3 Datblygu grwpiau'n ymwneud â materion penodol

7.4 Cyfleoedd digidol

7.5 Eiriolaeth gymunedol a arweinir gan oroeswyr

Pa opsiynau a ffafrir gennych chi ac am ba resymau?

Sut fyddech chi'n cyfuno'r opsiynau?

**Ymatebion**

Derbyniwyd wyth ymateb i'r cwestiwn hwn.

Adnabuodd y mwyafrif o ymatebwyr opsiwn neu opsiynau a ffafrir. Gwelodd rhai ymatebwyr bethau cadarnhaol ym mhob un o'r opsiynau a gyflwynwyd.

**Pa opsiynau a ffafrir gennych chi ac am ba resymau?**

**7.1 Grwpiau ymchwil cydweithrediadol a hysbysir gan oroeswyr**

Nododd tri ymatebwr opsiwn 7.1 fel opsiwn a ffafrir er nad oeddent yn sefyll ar eu pen eu hunain ar gyfer dau o'r ymatebwyr a ddadleuodd dros ddull cyfunol gyda naill ai opsiwn 7.2 (defnyddio sefydliadau'r trydydd sector i hwyluso lleisiau'r goroeswyr, trwy broses gytûn a strwythuredig) neu opsiwn 7.5 (eiriolaeth gymunedol a arweinir gan oroeswyr). Dywedodd un ymatebwr y byddai'r dull hwn (7.1) yn "casglu'r ddealltwriaeth angenrheidiol ar gyfer datblygu anghenion addysgol a deddfwriaethol" a theimlodd un arall y byddai hyn yn sicrhau bod llais yn cael ei roi ar gyfer gwrywod sy'n profi camdriniaeth.

**Materion i'w hystyried**

Ymhlith y materion a godwyd roedd yr angen am hyfforddiant, cymorth parhaus a dilynol. Pwysleisiodd ymatebwr y byddai'r opsiwn hwn ar gyfer nifer fach o bobl yn unig ac ni ddylai byth fod yr unig ffordd o ymgysylltu. Hefyd ymhlith y materion a godwyd roedd cynrychiolaeth a goroeswyr yn cael eu "proffesiynoli". Disgrifiwyd hyn fel goroeswyr yn dod i adlewyrchu barn gweithwyr proffesiynol yn hytrach na'u mewnwelediadau unigryw fel goroeswyr. Mynegwyd pryderon sylweddol o ran y dull hwn gan un ymatebwr pe bai'n cael ei ddefnyddio'n annibynnol i strwythur cefnogaeth megis SEEdS lle y cynigir hyfforddiant a chefnogaeth i alluogi i oroeswyr ymgysylltu mewn ffordd ystyrlon.

**7.2 Defnyddio sefydliadau'r trydydd sector i hwyluso lleisiau'r goroeswyr, trwy broses gytûn a strwythuredig**

Nododd pedwar ymatebwr mai opsiwn 7.2 fyddai'r opsiwn a ffafrir ganddynt a theimlodd rhai fod goroeswyr wedi arfer gydag ymgysylltu trwy'r trydydd sector. Nododd ymatebwr fod grwpiau a fforymau cyfredol yn rhoi'r amodau cywir ar gyfer

ymgysylltu a byddai'r cymorth cymheiriaid sy'n rhan o'r fforymau hyn yn grymuso ystod ehangach o oroeswyr i gymryd rhan mewn dylanwadu ar bolisi Llywodraeth Cymru. Nododd ymatebwr arall y dylai hyn gael ei arwain gan weithwyr â thâl sy'n hyrwyddo amcanion mesuradwy cyffredin cytûn.

Nododd un arall y gallai staff o wasanaethau arbenigol roi cefnogaeth i oroeswyr pe bai'r angen yn codi fel nad achosir niwed pellach. Teimlodd rhai ymatebwyr y dylai'r opsiwn hwn gael ei ystyried yng nghyd-destun strwythur/grŵp cefnogol. Galwodd un arall am brosiect cynaliadwy hirdymor lle y gall goroeswyr gynyddu eu lefelau gwybodaeth a'u lefelau sgiliau i gymryd rhan yn weithredol. Argymhellodd Cymorth i Ferched Cymru y dylai fframwaith cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr sy'n gynaliadwy gael ei symud yn ei flaen gan Gymorth i Ferched Cymru. Awgrymwyd ganddynt y dylai hyn dderbyn ei strwythur a'i adnoddau trwy fecanweithiau sefydliad ymbarél mawr. Hefyd teimlwyd ganddynt y byddai'r dull hwn yn ddigon hyblyg i gynnwys opsiynau eraill.

**Materion i'w hystyried**

Nododd un ymatebwr ei fod yn bwysig bod yr opsiwn hwn yn cynnig llais cydradd i bawb. Anogodd un ymatebwr i ystyriaeth gael ei rhoi i grwpiau ar y cyrion efallai y bydd eu lleisiau'n wannach i sicrhau bod eu cyfraniad yn gydradd â grwpiau mwy adnabyddus. Er croesawyd defnyddio sefydliadau'r trydydd sector, nodwyd y gall fod yn anodd i oroeswyr rannu profiadau efallai nad oeddent yn rhai cadarnhaol os yw'r darparwr yn bresennol. Rhybuddiodd un arall fod gan hyn y potensial i fygu "arloesed" oherwydd gallai adborth ganolbwyntio'n fwy ar ddarparwr y gwasanaeth yn hytrach nag ar faterion.

## 7.3 Datblygu grwpiau'n ymwneud â materion penodol

Er bod yr opsiwn hwn yn boblogaidd yn ystod proses uniongyrchol yr ymgysylltu â goroeswyr, nid oedd yn opsiwn a ffafrir gan unrhyw un o'r ymatebwyr. Fodd bynnag, fe'i gwelwyd yn "opsiwn da" gan rai, yn ogystal ag opsiwn arall a ffafrir. Teimlodd un ymatebwr y dylai'r opsiwn hwn ac opsiynau eraill gael eu datblygu ar y cyd â goroeswyr a'i sefydlu trwy strwythurau ac arbenigedd y trydydd sector.

**Materion i'w hystyried**

Byddai angen i grwpiau'n ymwneud â materion penodol gael eu plannu mewn strwythurau a sefydliadau cyfredol i alluogi cynrychiolaeth gynhwysol o oroeswyr. Mae'n hanfodol bod mecanweithiau ymgysylltu'n cyrraedd goroeswyr ar y cyrion neu oroeswyr a brofodd wahaniaethu i sicrhau bod pob un ohonynt yn ymwybodol o gyfleoedd i gyfranogi. Byddai hefyd angen i unrhyw grwpiau gael eu hwyluso'n ofalus i osgoi ail-drawmateiddio.

## 7.4 Cyfleoedd Digidol

Dywedodd un ymatebwr y dylai'r rhain fod ar gael i oroeswyr yn ogystal ag opsiynau eraill. Dywedodd un arall y byddai'n werth ystyried hyn a byddai'n rhoi cyfle i

oroeswyr nad oes ganddynt yr hyder i gyfranogi mewn ffyrdd eraill o gael eu lleisiau wedi'u clywed.

**Materion i'w hystyried**

Dywedodd un ymatebwr y gall cael mynediad i gyfleoedd digidol achosi problemau i rai, megis pobl hŷn a phobl nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf er enghraifft. Soniodd eraill am angen am ddull a reoleiddir sy'n cynnwys mesurau i sicrhau bod pob un sy'n cymryd rhan yn anhysbys. Dylid rhoi ystyriaeth i faterion posib megis diogelu, cam-drin a throlio yn ogystal â sut gellir cynnig cymorth yn dilyn unrhyw ddatgeliad. Ceir barn y dylai unrhyw fforwm digidol gael ei gymredoli a'i gefnogi gan arbenigwyr â dealltwriaeth o *VAWDASV*.

**7.5 Eiriolaeth gymunedol a arweinir gan oroeswyr**

Teimlodd rhai ymatebwyr fod hwn yn opsiwn da. Dywedodd un ymatebwr y gallai hwn fod yn ddull effeithiol pe bai'n cael ei ddefnyddio ar y cyd ag opsiwn 7.1 a byddai'n galluogi goroeswyr i barhau yn ddylanwadwyr ac yn gefnogwyr yn eu cymunedau. Dywedodd un arall y dylid rhoi ystyriaeth i fodel aml-lefelau gan gynnig darpariaeth gymunedol, ranbarthol a chenedlaethol.

Cynghorodd goroeswyr y dylai'r opsiwn hwn gael ei gynnig ar lefel gymunedol trwy ffurfio grwpiau addysg a grymuso i oroeswyr. Yna dylai'r gweithgarwch hwn a arweinir gan y gymuned fwydo i mewn i baneli rhanbarthol ac yna i banel cenedlaethol gyda "*chylch gorchwyl a gorffen penodol, i roi mewnbwn arbenigol i weithredu deddf VAWDASV*".

**Materion i'w hystyried**

Cododd un ymatebwr bryderon ynghylch efallai y bydd rhai goroeswyr yn ymgysylltu â grwpiau a fforymau tra eu bod yn y broses o wella o'u camdriniaeth neu eu trawma eu hunain o hyd. Mewn achosion o'r fath ni fydd goroeswyr mewn sefyllfa i gynnig cyngor na chefnogaeth i bobl eraill.

**Cyfuno opsiynau**

Roedd un ymatebwr o blaid cyfuno opsiwn 7.1 (Grwpiau ymchwil cydweithrediadol â hysbysir gan oroeswyr) ag opsiwn 7.5 (Eiriolaeth gymunedol a arweinir gan oroeswyr). Ar gyfer opsiwn 7.1 byddai cynnwys goroeswyr yn rhan o ddatblygu dull newydd yn eu galluogi i nid yn unig ffurfio a dylanwadu ar bolisi, ond hefyd cynllunio a datblygu'r dull ei hun. Teimlwyd y byddai cyfuno hwn ag opsiwn 7.5 yn galluogi goroeswyr i barhau i fod yn ddylanwadwyr ac yn gefnogwyr yn eu cymunedau. Byddai ymgysylltu mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol hefyd yn sicrhau bod lleisiau a barnau goroeswyr o amrywiaeth o gefndiroedd a sefyllfaoedd yn gallu cael eu cynnwys.

Teimlodd un arall y dylid cyfuno opsiwn 7.4 (Cyfleoedd digidol) ag opsiwn 7.5 i gynyddu i'r eithaf yr ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth. Awgrymodd ddatblygu grwpiau cymunedol a hysbysir gan oroeswyr sy'n mabwysiadu dull 'cylch gorchwyl a

gorffen' gyda chyfleoedd digidol gan gynnig ffordd hawdd o ymgysylltu ac o alluogi i ofyn am farnau yn gyflym yn ôl yr angen.

Pwysleisiodd ymatebwyr eraill yr angen i gynnwys ystod o opsiynau e.e. 7.1 a 7.2 a 7.1 a 7.5.

**Materion i'w hystyried: Pob opsiwn**

Pwysleisiodd ymatebwyr nifer o faterion mwy cyffredinol i'w hystyried wrth symud y gwaith hwn yn ei flaen. Ymhlith y rhain roedd yr angen am fentrau hirdymor gyda digon o adnoddau. Cytunwyd yn gryf â'r safbwynt a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori sef y dylai goroeswyr dderbyn adnoddau am eu hamser a'u harbenigedd a chael eu grymuso i chwarae rôl weithredol ar sail barhaus.

Dadleuodd ymatebwyr fod angen sicrhau bod strwythurau cefnogi mewn lle ar gyfer y sawl sy'n cymryd rhan ar gyfer unrhyw fath o ymgysylltu.

Gan anelu at gyrraedd pob goroeswr, dywedodd un ymatebwr y dylid rhoi ystyriaeth i bob un o'r nodweddion gwarchodedig a nodwyd yn y Ddeddf Cydraddoldeb.

Roedd ymgysylltu â phlant a phobl ifainc sydd wedi goroesi trais a chamdriniaeth yn cael ei weld fel beth pwysig a galwyd am ganfod cyfleoedd i glywed llais y plentyn trwy fecanweithiau megis y Ddraig Ffynci a'r Fforwm Plant.

Roedd un ymatebwr o'r farn y byddai'n werth chweil pe bai goroeswyr nad ydynt yn ymgysylltu â gwasanaethau yn cael eu hadnabod a chanfod y rhesymau dros hyn. Cwestiynodd un arall a fyddai goroeswyr yn siarad yn hyderus pe bai'n rhan o rai o'r opsiynau a gyflwynwyd.

Roedd un arall o'r farn fod angen rhoi ystyriaeth i'r elfen amser ar gyfer y sawl sy'n gweithio neu fod ganddynt ymrwymiadau eraill a nododd un y dylid fod yn ymwybodol o oroeswyr yn profi blinder adborth.

Wrth symud unrhyw fodel yn ei flaen galwodd un ymatebwr am sicrwydd y caiff systemau eu sefydlu i sicrhau y byddai adborth ac argymhellion gan oroeswyr yn cael eu rhoi ar waith.

Gan roi ystyriaeth i'r holl opsiynau a gyflwynwyd, hefyd galwyd am sicrhau y defnyddir dull hyblyg sy'n ymatebol i brofiadau a brofwyd. Cynigiwyd y byddai hyn ar ffurf dull aml-ffasedol gan ganiatáu i amrywiaeth o oroeswyr gymryd rhan ym mha bynnag ffordd sydd fwyaf addas iddynt.

Hefyd nododd yr ymatebwr hwn y dylid rhoi cydnabyddiaeth i'r ffaith nad yw ymgysylltu â goroeswyr mewn ffordd effeithiol na dal eu barnau yn dasg hawdd.

| **Cwestiwn 2** |
| --- |
| 2. Pa fecanweithiau ychwanegol yr hoffech chi weld Llywodraeth Cymru'n eu hystyried ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr at ddibenion datblygu polisi?<br><br>A oes modelau ymarfer ychwanegol y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried? |

Pa opsiynau ychwanegol yr hoffech chi i ni eu hystyried?

**Ymatebion**

Yn ogystal â'r opsiynau a bwysleisiwyd o dan gwestiwn 1, amlinellodd ymatebwyr opsiynau/mecanweithiau ychwanegol ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr.

Dadleuodd un dros fodel SEEdS ar sail leol neu ranbarthol fel mecanwaith ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu â dioddefwyr *VAWDASV.* Dywedodd un arall y dylai fod grŵp i oroeswyr gwryw gan ddefnyddio dull tebyg i fodel SEEdS. Galwodd un ymatebwr am lwybr ar wahân i ddynion trwy ddatblygu strategaethau, gwasanaethau cymorth a chyngor a chefnogaeth.

Er nad yw wedi'i restru o dan opsiwn 7.4, galwodd un ymatebwr am grŵp cenedlaethol ar gyfer goroeswyr i ddefnyddwyr ar-lein gan roi mynediad cyfyngedig a goruchwyliaeth gan gymedrolwr i sicrhau y caiff rhagor o leisiau eu clywed, gan gynnwys y sawl nad ydynt wedi cael mynediad i wasanaethau hyd yma. Gwelwyd digwyddiadau cenedlaethol i oroeswyr yn gyfle i ddioddefwyr gymryd rhan mewn ymgynghoriadau ac i ffurfio polisi a straegaethau.

Galwodd ymatebwr arall am grwpiau cylch gorchwyl a gorffen cymunedol a hysbysir gan oroeswyr gan roi cyfle i gynyddu datblygiad personol goroeswyr ymhellach gan arwain at gymwysterau ffurfiol cydnabyddedig. I'r diben hwn, gallai goroeswyr hefyd fod yn rhan o fwydo yn ôl ar ganfyddiadau adborth ac ymgysylltu â grwpiau cymunedol i ofyn am farnau.

Pwysleisiwyd hyfforddi ac achredu goroeswyr fel model ychwanegol i'w ystyried. Byddai hyn yn cynnwys rhoi hyfforddiant a chefnogaeth i adeiladu capasiti sefydliadau i ymgysylltu â'u defnyddwyr gwasanaeth eu hunain i ddatblygu grwpiau ymgysylltu lleol ac i fwydo i mewn i baneli rhanbarthol ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr. Awgrymodd un ymatebwr y dylai goroeswyr hefyd fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu a chyflenwi rhaglenni hyfforddiant.

Hefyd awgrymwyd cyfleodd i wirfoddoli a rhaglen wirfoddoli ymroddedig i oroeswyr fel mecanwaith i annog ymgysylltu. Derbyniwyd galw am blannu ymgysylltu â goroeswyr yn rhan o'r holl ffrydiau gwaith *VAWDASV* ar draws rhanbarthau.

Galwodd un ymatebwr am fframwaith cenedlaethol o swyddogion rhanbarthol ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr. Argymhellwyd y dylai'r rhwydwaith hwn gael ei leoli mewn sefydliadau ymbarél annibynnol y trydydd sector nid wedi'u cysylltu â gwasanaethau arbenigol, gwasanaethau statudol na gwasanaethau'r Llywodraeth. Dadleuwyd y byddai angen hyn er mwyn ymgysylltu ystod amrywiol o oroeswyr ac i gynyddu sgiliau gwybodaeth a magu hyder goroeswyr i gymryd rhan.

Galwyd am ddull ymroddedig a anelir at oroeswyr cam-drin plant yn rhywiol. Fel rhan o hyn cafwyd ymgysylltu posib trwy sefydliad aelodau yn ogystal â rhoi ystyriaeth i ymgysylltu yn dilyn cwblhau'r prosiect *Truth*. Byddai hyn yn cynnwys sefydlu fforymau rhanbarthol i oroeswyr ar gyfer y sawl a ddioddefodd drais rhywiol a cham-

drin rhywiol a fyddai'n bwydo i mewn i fforwm cenedlaethol ar gyfer goroeswyr Cymru.

Hefyd codwyd y potensial y gallai sefydliadau cymunedol lleol neu grwpiau ffydd lleol roi cefnogaeth ac ymgysylltu.

**Materion i'w hystyried**

Dywedodd rhai ymatebwyr y byddai angen ystyried sut caiff ariannu ei ddarparu ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr yn barhaus. Ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau neu grwpiau cenedlaethol dylid cymryd i ystyriaeth ystyriaethau rhanbarthol.

Bu nifer o ymatebwyr o blaid cynnal rhagor o waith a hyfforddiant gyda chyflogwyr yn ogystal ag arfer gwell i roi cefnogaeth i bobl yn eu gweithle; galwodd un arall am lefel fwy o ymwybyddiaeth, sensitifrwydd a dealltwriaeth ymhlith comisiynwyr, darparwyr gwasanaethau a Meddygon Teulu.

Awgrymodd un ymatebwr fod angen ymarferiad mapio i benderfynu pa fecanweithiau a oedd eisoes mewn lle yng ngwasanaethau arbenigol *VAWDASV* i roi cefnogaeth i ymgysylltu â goroeswyr. Cefnogodd hyn sylw gan ymatebwr arall am yr angen i osgoi gorgyffwrdd ac i weithio'n gydweithrediadol.

| **Cwestiwn 3** |
| --- |
| 3. Ym mha ffordd y dymunech chi weld goroeswyr yn symud gweithgarwch cyfathrebu, eirioli ac addysg yn ei flaen mewn rhanbarthau neu mewn awdurdodau lleol?<br><br>A oes modelau ymarfer ychwanegol y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried?<br><br>Pa opsiynau ychwanegol y dymunech chi i ni eu hystyried? |

Wrth ystyried hyn, teimlodd un ymatebwr y byddai angen dull "tebyg at ei debyg" trwy gael, er enghraifft, person hŷn yn siarad â grŵp o bobl hŷn am gam-drin domestig a fyddai'n llawer mwy tebygol o atseinio gyda'r gynulleidfa. Hefyd teimlodd yr ymatebwr y byddai recordiadau digidol, sain neu weledol fel gweithgareddau ymgysylltu addysgol yn ddefnyddiol.

Dadleuodd un arall dros ddull gwahanol o ran dioddefwyr gwryw a allai gynnwys ymgysylltu dynion â sgyrsiau am fod yn ddioddefwyr o drais yn gyffredinol a chysylltu hyn â bod yn ddioddefwr o drais domestig a thrais rhywiol.

Galwodd un ymatebwr am sefydlu prosiect penodol lle y caiff goroeswyr eu dyrannu i dîm o weithwyr i sicrhau cysondeb ac i adeiladu cynghrair sy'n gweithio.

Dywedodd un arall y dylai goroeswyr fod yn rhan o'r gwaith o addysgu awdurdodau lleol a sefydliadau am ba mor wirioneddol yw'r materion.

Dywedodd ymatebwr y dylai goroeswyr gymryd rôl sy'n wynebu'r cyhoedd (ar gyfer y sawl sy'n dymuno gwneud hynny) a dylai rhagor o gyfleoedd "y tu ôl i'r llenni" hefyd fod ar gael.

Galwyd i oroeswyr gael eu cynnwys ar yr agenda ar gyfer awdurdodau lleol o ran cyllidebu ac ariannu i sicrhau bod gwir gostau *VAWDASV* wedi'u deall.

Dywedodd un arall y byddai'n briodol i oroeswyr gyflenwi hyfforddiant a dywedodd un arall y gallai hyn gael ei gynnal o fewn addysg fel rhan o'r ddarpariaeth Perthnasoedd Iach mewn ysgolion.

Amlinellodd un ymatebwr fodel rhanbarthol a chenedlaethol ar gyfer ymgysylltu. Byddai hyn yn cynnwys goroeswyr a wahoddwyd i fynychu paneli rhanbarthol ar gyfer cyfranogaeth goroeswyr a arweinir gan swyddogion rhanbarthol ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr a fyddai'n bwydo i mewn i banel cenedlaethol ar gyfer cyfranogaeth goroeswyr. Byddai'r panel cenedlaethol yn darparu fforwm a fyddai'n cynnig grŵp ymgynghori arbenigol yn cynnwys goroeswyr *VAWDASV* a'r brif nod fyddai rhoi cyngor a hysbysu cyflenwi amcanion y strategaeth genedlaethol a gweithredu'r ddeddf *VAWDASV*. Argymhellodd Cymorth i Ferched Cymru y dylai'r model hwn gael ei gyd-gynhyrchu gyda hwy.

Galwodd ymatebwr arall am gynnwys goroeswyr yn rhan o ymgyrch i godi ymwybyddiaeth ar draws Cymru gyfan sy'n pwysleisio effeithiau cam-drin plant yn rhywiol.

**Materion i'w hystyried**

Yn unol â'r hyn a nodwyd gan ymatebwyr eraill, plediwyd i sicrhau bod ariannu'n cael ei ystyried o'r cychwyn cyntaf gan gynnwys ystod o opsiynau ar gyfer cymryd rhan.

Dadleuodd un ymatebwr dros adnoddau penodol i gynyddu capasiti'r sefydliadau yn y sector dynion i'w galluogi i ymgysylltu.

Dywedodd un arall y dylai goroeswyr dderbyn cyfleoedd i ddatblygu ymhellach fel bod ganddynt hyder i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ac i roi barnau i helpu i ffurfio polisi.

Wedi'i alinio ag ymatebion eraill, galwyd am bwysleisio bod angen sicrhau amrywiaeth o ran cefndir, profiad ayyb wrth sefydlu unrhyw grŵp/panel.

## Casgliadau

Er mai ychydig o ymatebion a gafwyd, cyfanswm o 14, daeth rhai themâu clir i'r amlwg. Dylid nodi bod y cynigion yn y ddogfen ymgynghori wedi'u datblygu mewn cydweithrediad agos â goroeswyr – 60 ohonynt i gyd – a chyda 14 o gyrff

sefydliadau. Fodd bynnag, rhaid nodi'r nifer bychan o ymatebion a chydnabod bod angen profi'r casgliadau hyn.

Roedd yn glir wrth ddarllen yr ymatebion a dderbyniwyd bod cefnogaeth ar gyfer ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod ymgysylltu â goroeswyr yn hysbysu ac yn ffurfio polisi a gwaith cysylltiedig a dylid osgoi ymyraethau unswydd, tocynistaidd.

Pwysleisiodd ymatebwyr elfennau cadarnhaol ar gyfer pob un o'r opsiynau a gyflwynwyd a chodwyd materion i'w hystyried wrth symud y gwaith hwn yn ei flaen. Hefyd adnabuwyd opsiynau a ffafrir a oedd yn gyson â chanfyddiadau'r digwyddiadau ymgysylltu a gynhaliwyd rhwng mis Tachwedd 2017 a mis Ionawr 2018.

Hefyd atgyfnerthwyd yr angen i sicrhau y caiff dulliau arfer da cyfredol eu cydnabod a chânt eu hadeiladu arnynt wrth symud y gwaith hwn yn ei flaen, gan alw am sicrhau y caiff mecanweithiau cefnogi a dulliau ymgysylltu perthnasol eu hystyried ar gyfer pob grŵp o oroeswyr.

## Y Camau Nesaf

Roedd nifer yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn siomedig, gan godi materion sy'n gwneud ystyriaeth bellach yn ofynnol. Er bod ystod amrywiol o oroeswyr o ledled Cymru wedi'u hymgysylltu â'r gwaith hwn hyd yma, rydym yn parhau i weld bylchau o hyd yn nhermau'r sawl nad oedd modd i ni eu cyrraedd. Rydym hefyd yn ymwybodol nid yw rhai grwpiau o oroeswyr mwy cudd, y sawl nad ydynt yn cael mynediad i wasanaethau nac yn rhan o unrhyw ymgysylltu strwythuredig ffurfiol yn cael eu clywed. Ymhlith y rhain mae dynion, cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a phobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol.

Mae ein camau nesaf arfaethedig yn gosod dull a fydd yn cynyddu ein dealltwriaeth o ran y ffordd orau o weithio gydag grwpiau gwahanol o oroeswyr i alluogi eu cyfranogaeth mewn panel cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr. Bydd hyn yn cyflenwi dau brif weithgarwch:

- Gwella cynrychiolaeth o ymgysylltu â goroeswyr yn y dyfodol trwy gynnal ymchwil sylfaenol gyda'r grwpiau goroeswyr hynny sydd wedi'u tangynrychioli gan ganfyddiadau gwaith ymgysylltu â goroeswyr a gyflawnwyd yn flaenorol; a

- Chynllun peilot graddfa fach ar gyfer panel cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr.

Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn meddu ar y prosesau gorau posib i glywed ystod amrywiol o leisiau trwy fframwaith cenedlaethol.

Wrth i waith y cynllun peilot hwn gael ei gyflawni bydd y gwaith parhaus o ymgysylltu â goroeswyr, a sefydlwyd fel ymarfer allweddol ar gyfer datblygu polisi *VAWDASV* yn parhau. Caiff yr ymgyrchoedd a'r cyfathrebu ar gyfer 2018-2019 eu datblygu gyda goroeswyr a bydd y gwaith maes i gefnogi'r cynllun peilot hwn yn cynnwys

ymgysylltu uniongyrchol ac yn cynnwys grŵp ehangach o oroeswyr na'r dull presennol a ddefnyddiwyd gennym ni.

## Diolch

Hoffem ddiolch i bawb a dreuliodd amser yn ymateb i'r ymgynghoriad. Mae eich barnau wedi bod yn bwysig ar gyfer hysbysu'r broses gwneud penderfyniadau. Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb am ei gyfraniadau.

## Atodiad A - Rhestr o Ymatebwyr

Derbyniwyd ymatebion gan:

Di-enw trwy Smart Survey
Di-enw trwy Smart Survey
Di-enw trwy Smart Survey
Di-enw trwy Smart Survey
Di-enw trwy Smart Survey
Di-enw trwy Smart Survey
Di-enw trwy Smart Survey
Di-enw trwy adborth Live Fear Free
Cyngor Caerdydd a Chyngor Pen-y-bont ar Ogwr
Families Need Fathers/Both Parents Matter Cymru
Partneriaeth Gwent
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Ymddiriedolaeth Goroeswyr Cymru
Cymorth i Ferched Cymru